OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 897

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym —

(a) at ddibenion y rheoliad hwn a rheoliadau 3(1), 5, 7(1), 8(1) ac 8(4) ar 1 Ebrill 2003,

(b) at ddibenion yr holl reoliadau eraill a'r rhannau o reoliadau, ar 7 Ebrill 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**1**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(**1**) O.S. 1992/2977; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1996/602 ac O.S. 2002/814 (Cy.94).